Aelodaeth is bwyllgor Cymorthdaliadau: Cllrs / Cyng Rob Parkes, Raymond Bartley, Medwyn Williams, Colin Hughes, Roy Tickle, Shereen Devine a Gaynor Wood.

Cofnodion is-bwyllgor Cymorthdaliadau a gynhaliwyd nos Fawrth, Mawrth 17eg 2015 am 4.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.

Presennol: Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Roy Tickle, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

Ymddiheuriadau: Cyng. Colin Hughes (cadeirydd), Shereen Devine, Rob Parkes, Medwyn Williams.

Cyn cychwyn y cyfarfod cytunwyd fod y cyfarfod yn quorate.

Yn absenoldeb y cadeirydd a'r is gadeirydd etholwyd y Cyng Raymond Bartley i gadeirio'r cyfarfod.

Datganiad Diddordeb: Cyng Raymond Bartley - Coleg Llandrillo Dinbych - ddiddordeb personol.

Dywedwyd fod **£12,316.94** ar gael yng nghyllideb cymorthdaliadau (cyfanswm cyllideb cymorthdaliadau yn £50,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol). Ystyriwyd pump o geisiadau. Cytunwyd i argymell y canlynol ynglŷn â phob un o'r ceisiadau

1. Cae Dai. Cais yn gofyn am ariannu o £3,000 tuag at gostau prosiect o £3,144 i osod sustem larwm tân yn yr amgueddfa. Gohiriwyd y cais ym mis Chwefror gan y cyngor er mwyn cael mwy o ddyfynbrisiau ac i'r ceisydd fynd i'r afael a'r ddau bryder a godwyd gan y cyngor. Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a yrrwyd i'r ceisydd ar Chwefror 25ain - hyd yn hyn ni dderbyniwyd yr wybodaeth a ofynnwyd amdano. Cytunwyd i argymell gohiriad pellach.

2. Clwb Bowlio Dinbych. Cais am y tro cyntaf - gofynnwyd am swm hyd at £4,450 i brynu adeilad/ cynhwysydd, peiriant torri glaswellt, "scarifier" ac awyrydd i gynnal a chadw'r lawnt bowlio - cyfanswm y prosiect £4,450. Derbyniwyd manylion y sefyllfa rhwng CSDd a'r Clwb Bowlio gan y Cyng Bartley. Cyfeiriwyd hefyd at y llythyr a yrrwyd gan glerc y dref at y cadeirydd Steve Chalk. Cytunwyd i argymell grant o £2,650 yn benodol tuag at brynu'r sied/cynhwysydd a "scarifier" (A.137) ac i hysbysu'r ceisydd o hyn a hefyd y bydd modd ystyried cais pellach am grant yn y flwyddyn ariannol newydd.

3. Coleg Llandrillo Dinbych. Cais blynyddol i ariannu lluniaeth yn ystod yr Eisteddfod flynyddol ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu - gofynnwyd am £700 ar gyfer lluniaeth i 250 o bobl - yn daladwy i S & T Catering. Cytunwyd i argymell grant o £700 (A.145).

4. Make the Most of the Carriageway CIC. Cais am y tro cyntaf. Gofynnwyd am £2,000 tuag at cyfanswm costau o £2,500 i adeiladu a chatalogio archif oedd yn cofnodi hanes y carriageworks, i ddefnyddio'r casgliad i ffurfio sail i 6 sesiwn ysgrifennu creadigol ar gyfer pobl leol, i drefnu arddangosfa ac ati. Cytunwyd i argymell grant o £2,000 (A.137).

5. Cyngor Plwyfol Eglwysi Dinbych. Cais blynyddol i gynnal a chadw Mynwent yr Eglwys Wen - cyfanswm costau'r prosiect £11,121 & llogi "portaloo" - £680. Gofynnwyd am £3,000. Cytunwyd i argymell grant o £3,000 (yn unol a pholisi uchafswm grant y cyngor) tuag at gynnal a chadw'r fynwent yn unig (A.215(6).

Cyfanswm grantiau a argymhellwyd - **£8,350**

Terfynwyd y cyfarfod am 4.51 o'r gloch.